


**Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro** yw elusen swyddogol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Rydym yn sefydliad annibynnol a lywodraethir gan fwrdd ymddiriedolwyr ymreolaethol a phrofiadol sy'n goruchwylio ein gwaith.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gefnogi'r prosiectau gorau a gyflawnir gan y bobl orau a phrosiectau sy'n cael eu llywio gan Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan y cymunedau lleol a gan arbenigwyr amgylcheddol a threftadaeth.

Ein hamcanion elusennol yw:

- Hyrwyddo cadwraeth, gwarchodaeth a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r ardaloedd cyfagos gan gynnwys bywyd gwyllt yn y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo'r addysg am bwysigrwydd y Parc Cenedlaethol, y bywyd gwyllt sydd yn y Parc a'r tirweddau naturiol
- Hyrwyddo iechyd corfforol a meddyliol y cyhoedd, gan gynnwys annog pobl i gerdded a gwneud ymarfer corff yn y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo darparu'r cyfleusterau ar gyfer hamdden neu amser hamdden arall er budd lles cymdeithasol a gyda'r nod o wella amodau bywyd.

Bydd pob grant a ymgymerwn yn cyflawni ein hamcanion elusennol.

## 1. Diben y gronfa

Gall grwpiau cymunedol, sefydliadau a busnesau wneud cais am hyd at £4,000 am grant bach 'Gweithredu dros Natur' ar gyfer prosiectau sydd â chamau cadarnhaol o weithredu ar gadwraeth ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r cyffiniau.

Rhaid i brosiectau a ariennir gyflawni un o'r canlynol:

- Camau cadarnhaol o weithredu ar gadwraeth neu newid yn yr hinsawdd
- Cefnogi bioamrywiaeth
- Creu man gwyrdd newydd.

Ymhlith yr enghreifftiau o'r math o brosiect y gallai'r gronfa ei gefnogi mae: creu dolydd blodau gwyllt ar ddarnau bach o dir comin/tir cyhoeddus, cynyddu'r cynefinoedd i bryfed peillio, plannu coed, creu perthi, plannu coed ffrwythau a chreu pyllau dŵr.

## 2. Pwy all wneud cais

Sefydliadau nid-er-elw yn Sir Benfro sydd â chyfrif banc yn enw'r grŵp, gan gynnwys elusennau, sefydliad a busnesau megis darparwyr twristiaeth sydd â thir lle gall pobl dreulio amser yn cysylltu â byd natur neu fusnesau lle gellir dangos budd i'r cyhoedd gwirfoddol a gyfansoddwyd, cynghorau cymuned, ysgolion a chlybiau a chymdeithasau chwaraeon.

Nid yw unigolion yn gymwys i wneud cais.

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n dod o'r ardaloedd cynghorau cymuned a chynghorau tref canlynol:- Boncath, Cilgerran, Clydau, Cwm Gwaun, Trewyddel, Penfro, Ystagbwll a Chastellmartin, Hundleton, Angle, Trefdraeth, Abergwaun ac Wdig, Crymych, Eglwyswrw, Nanhyfer

## 3. Sut mae gwneud cais

Llenwch y ffurflen gais fer. Mae'r ffurflen ar gael, a gellir ei llenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg yn https://ymddiriedolaetharfordirpenfro.cymru/ein-gwaith-an-heffaith/cronfa-gweithredu-dros-natur/

Anfonwch eich cais wedi'i lenwi atom drwy e-bost, **dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Medi 2024**. Mae un dyddiad cau bob blwyddyn.

Rhowch enw eich sefydliad ym maes pwnc eich e-bost a'i anfon at support@pembrokeshirecoasttrust.wales.

Bydd y canllawiau canlynol o bosibl yn gymorth i chi lenwi'r cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi pob blwch. Nodir uchafswm y nifer geiriau a ganiateir. Nid oes angen i chi ddefnyddio'r uchafswm.

**Manylion cysylltu**

- Rhowch enw eich sefydliad fel y'i nodwyd yn eich dogfen lywodraethu a'ch cyfriflen banc.
- Dywedwch wrthym beth mae eich grŵp yn ei wneud.
- Ticiwch y math o grŵp/sefydliad nid-er-elw ydych chi.

**Manylion y prosiect**

- Beth yw enw'r prosiect ac ymhle fydd yn cael ei gynnal? Noder lleoliad y prosiect ac ardal y cyngor cymuned neu gyngor tref.
- Pryd ydych chi'n bwriadu cychwyn ar y prosiect? Ni all fod wedi cychwyn eisoes; ni allwn dalu am eitemau yn ôl-weithredol.
- Pryd fyddwch chi'n gorffen y prosiect? Sylwer os gwelwch yn dda bod rhaid cwblhau'r prosiect erbyn **28 Chwefror 2025**.
- Beth fyddwch yn ei wneud â'r arian grant? A fyddech gystal ag egluro'r manteision i fywyd gwyllt a'r manteision i bobl
- A ydych wedi gwneud unrhyw ymchwil am yr angen? Pwy sydd eisiau'r prosiect a sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Ai ardal gymunedol, pentref neu grŵp o bobl fydd yn elwa? Er enghraifft, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr?
- Pa wahaniaeth fyddwch chi'n ei wneud? Sut fydd pobl neu'r amgylchedd yn elwa? Pa wahaniaeth fyddwch chi'n ei weld?
- Sut fyddwch chi'n gwybod eich bod chi wedi gwneud gwaith da? Sut fyddwch chi'n gwybod faint o bobl fydd yn elwa? Beth fyddwch chi'n ei wneud ar ddiwedd y prosiect i weld a oedd wedi gweithio?
- Sylwer mai cronfa gyfalaf yn unig yw hon (ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer costau staff na chostau rhedeg).

**Cyllideb**

- Faint o arian ydych chi'n gwneud cais amdano? (Uchafswm £4,000)
- Rhowch ddadansoddiad llawn o sut y byddwch yn gwario'r arian. Rhowch fanylion clir y costau a'r union ffigurau.
- Os na fydd yr arian grant yn ddigon i dalu'r costau yn llawn i gyflawni'r prosiect, o ble fydd gweddill y cyllid yn dod?
- Dim ond ar eitemau cyfalaf y gellir gwario'r arian

**Datganiad**

Ticiwch y blychau a llofnodi'r ffurflen i gadarnhau bod y manylion ar y ffurflen gais yn gywir. Dim ond person awdurdodedig, megis aelod o'r bwrdd neu bwyllgor, all lofnodi.

## 4. Pwyllgor Gwneud Penderfyniadau

Mae un dyddiad cau y flwyddyn. Bydd pob cais yn cael ei asesu a'i sgorio, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 4 wythnos o'r dyddiad cau.

## 5. Cyflawni

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau eu prosiect erbyn **28 Chwefror 2025**.

Nid oes angen cyllid cyfatebol.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect a ariennir gwblhau diweddariad hanner ffordd drwy'r prosiect ac adroddiad ar ddiwedd y prosiect gyda thystiolaeth.